

## **Gwaith Adnewyddu Twneli Brynglas ar yr M4**

### **C1 - Pam bod angen gwneud y gwaith?**

Mae'r gwaith o adnewyddu'r twneli yn hanfodol er mwyn uwchraddio'r systemau Mecanyddol a Thrydanol, yn ogystal â'r lonydd, y system draenio a leinin y twneli er mwyn gweithredu'r twneli'n ddiogel yn y dyfodol agos. Tra bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud caiff gwaith adnewyddu pellach ac angenrheidiol ei wneud ar strwythurau Pont Afon Wysg a Throsbont Malpas, gyda'r gwaith yn cael ei wneud yn gyffredinol o dan y strwythurau gan ganiatáu llif traffig arferol.

### **C2 - Pa fanteision ddaw o'r gwaith?**

Mae cysylltiadau trafnidiaeth effeithiol a rhwydwaith mwy gwydn yn hanfodol ym mywyd bob dydd economi Cymru ac economi'r DU yn gyffredinol.

Bydd y prosiect yn sicrhau bod y twneli yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch Ewropeaidd presennol ac yn cyflawni ymyriadau Llywodraeth Cymru yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynllun Rheoli Llwybr ar gyfer yr M4.

### **C3 - Pryd fydd y gwaith yn dechrau ac am ba hyd y bydd y contract yn para?**

Disgwylir i'r gwaith ar Dwneli Brynglas ddechrau ddydd Llun 20 Mehefin, gyda'r gwaith yn parhau dros nos tan Chwefror 2018 ac yn gweithio tua'r dwyrain a thua'r gorllewin am yn ail.

### **C4 - Pam y bydd y gwaith yn cymryd 2 flynedd i'w gwblhau?**

Bydd gweithio gyda'r nos yn lleihau'r effaith ar fusnesau a chymudwyr. Er mwyn lleihau'r effaith ar lif traffig ar y penwythnosau, dim ond cyfyngedig o gyfnodau estynedig o gau ar ddydd Sul a ganiateir. Caiff y diweddariadau traffig i gyd eu cyhoeddi drwy [Traffig Cymru](#).

### **C5 - Pa rannau o'r M4 fydd ar gau?**

Bydd llwybr dargyfeirio yr M4 ar hyd yr A48 (Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol). Bydd y dargyfeirio ar waith rhwng cyffyrdd 24 a 28 yr M4, fodd bynnag, caniateir i draffig lleol deithio hyd at gyffyrdd 25a a 26 er mwyn cael mynediad at lwybrau lleol. Dim ond am gyfnod byr o amser yn unig am resymau diogelwch y bydd angen cau'r ddau dwnnel.

### **C6 - Rhwng pa oriau fydd y twneli ar gau?**

Bydd y twneli tua'r dwyrain a thua'r gorllewin ar gau am yn ail oni bai bod angen cau'r ddau dwnnel am resymau diogelwch. Yn ystod dyddiau'r wythnos, bydd y twnnel ar gau o 8pm gyda'r draffordd yn ailagor erbyn 6am drannoeth. Bydd cau'r ffordd ar ddydd Sul am gyfnodau estynedig hefyd yn gyfyngedig i'r cyfnod rhwng 8pm ar nos Sadwrn a 6am ar fore Llun.

## **C7 - Clywais y bydd y twneli ar gau ar benwythnosau. Pryd fydd hyn yn digwydd?**

Ar hyn o bryd y bwriad yw cau'r twneli ar y penwythnosau ar y dyddiadau canlynol, ond gallant gael eu hadolygu a'u newid:

<b>Twunnel</b>	<b>Dyddiad cau</b>	<b>Dyddiad agor</b>
tua'r gorllewin	24.07.2017	18.08.17
tua'r dwyrain	21.08.17	09.01.2018
tua'r gorllewin	09.01.18	14.03.18

Rydym yn bwriadu cau'n gyfan gwbl dros nifer o benwythnosau, gan gyfyngu'r teithio i un cyfeiriad yn unig a bydd yn dechrau ar nos Sadwrn gyda'r draffordd yn ailagor i draffig ar y bore dydd Llun canlynol (06:00)

<b>Twunnel</b>	<b>Dyddiad cau</b>	<b>Dyddiad agor</b>
tua'r dwyrain	16.09.2017	18.09.2017
tua'r dwyrain	23.09.2017	25.09.2017
tua'r dwyrain	07.10.2017	09.10.2017

Bydd diweddariadau [traffig ar gael ar wefan](#) neu gyfrif [Twitter Traffig Cymru](#).

## **C8 - A roddwyd ystyriaeth i ddigwyddiadau mawr a gynlluniwyd yn y cyffiniau wrth lunio amserlen y gwaith?**

Caiff unrhyw effaith ar ddigwyddiadau mawr neu gyfnodau prysur, megis yr Haf a'r Pasg, ei hadolygu a bydd y cyfnodau cau yn cael eu cynllunio o amgylch y rhain.

## **C9 - A fydd ffyrdd ar gau hyd yn oed pan fydd y draffordd yn brysur?**

Bydd y contractwr yn cynnal cyfrif traffig cyn cynllunio i gau'r M4. Os bydd y cyfrif traffig yn uwch na'r lefel a bennwyd ymlaen llaw, ni chaiff y ffordd ei chau.

## **C10 - Pwy sy'n ymgymryd â'r gwaith, ac a allaf gysylltu â nhw os bydd pryder gennyf?**

Y prif gontractwr ar gyfer y camau dylunio ac adeiladu yw Costain Cyf.

Mae gan Costain linell gymorth â staff yn ateb galwadau 24 awr y dydd - **0845 6002664**.

## **C11 - A roddwyd ystyriaeth i faterion amgylcheddol wrth gynllunio'r gwaith?**

Cafwyd pob trwydded amgylcheddol cymwys ar gyfer gweithio yn agos at Afon Wysg. Mae'r ardal wedi'i nodi fel un sy'n amgylcheddol sensitif a chafodd pob arolwg cymwys ei gynnal a'i ystyried.

## **C12 - A fydda i'n gallu parhau i seiclo ar hyd y llwybr beicio o dan Bont Afon Wysg yn ystod y gwaith?**

Byddwch, ni chaiff y llwybr beicio o dan Bont Afon Wysg ei gau yn ystod y gwaith.

## **C13 - A fydd y Gwaith yn swnllyd?**

Bydd dull y Contractwr o weithio yn cynnwys mesurau i leihau effeithiau sŵn, dirgrynu a llwch.

## **C14 - A fydd yna arwyddion ymlaen llaw ar y draffordd i rybuddio am y bwriad i gau'r ffyrdd?**

Caiff y cyhoedd fydd yn teithio eu rhybuddio ymlaen llaw am y bwriad i gau'r ffyrdd drwy arwyddion ymlaen llaw ar hyd yr M4 ger Casnewydd ar gyfer y cyfeiriad traffig yr effeithir arno.

## **C15 - Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth am y gwaith?**

Gwefan y prosiect yw [www.llyw.cymru/twnelau-bryn-glas](http://www.llyw.cymru/twnelau-bryn-glas). Gallwch hefyd gael y newyddion diweddaraf am gynnydd drwy gofrestru i gael Hysbysiadau Gwybodaeth y prosiect dros e-bost. Cofrestrwch eich diddordeb drwy gysylltu â [hannah.lewis@costain.com](mailto:hannah.lewis@costain.com) neu gyda'n [ffurflen gysylltu](#).